

**COFNODION O GYFARFOD PWYLLGOR AMCANION CYFFREDINOL A CHYNLLUNIO CYNGOR TREF BAE COLWYN A GYNHALIWDYD YN YR YSTAFELL BWYLLGOR, NEUADD Y DREF, FFORDD RHIW, BAE COLWYN, NOS FAWRTH, 15<sup>ED</sup> MEDI 2015 AM 6.30 P.M.**

**YN BRESENNOL:** Cynghorydd N. Bastow (Is-Gadeirydd)  
Cynghorwyr W Bagnall, Mrs L. Griffiths, J. Pearson (Warden Coed), S. Williams, C. Wood

**SWYDDOG:** Mrs C J Earley, Clerc y Dref

**157/15 Croeso ag Ymddiheuriadau am Absenoldeb:**

Yn absenoldeb y Cynghorydd D. Porter, y Cynghorydd N. Bastow yn y Gadair. Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth Y Maer, Cynghorydd Dr S. Roy a'r Cynghorwyr Mrs L. Edwards, Mrs M. Jones, C. Perry ag R. Foreman.

**158/15 Datgan Cysylltiadau:**

Atgoffwyd yr aelodau o'r angen iddynt ddatgan unrhyw gysylltiadau personol a / neu gysylltiadau sy'n rhagfarnu, a natur y fath gysylltiadau. Ni ddatganwyd dim.

**159/15 Cofnodion:**

- a. *Penderfynwyd cymeradwyo cofnodion y cyfarfod diwethaf a gynhaliwyd ar 18<sup>fed</sup> Awst 2015 a'u llofnodi i fod yn adroddiad cywir.*
- b. *Penderfynwyd derbyn Cofnodion drafft cyfarfod Is-Bwyllgor y Tân Gwylt a gynhaliwyd ar 10<sup>fed</sup> Medi a chyfarfod Is-Bwyllgor Goleuadau'r Nadolig a gynhaliwyd ar 14<sup>eg</sup> Medi.*

**160/15 Materion yn Codi o Gofnodion Blaenorol:**

**a. Cofnod 111/15(a) – Pryderon am Barcio:**

Cyflwynodd y Clerc ymateb pellach gan Emma Anthony, yn egluro byddai'n rhaid gofyn i Victor Turner (gwnaed hyn) i Swyddog cael mynychu cyfarfod yn y dyfodol, a hefyd am gopiau o gwynion a anfonwyd at GBS Conwy am y gwaharddiadau parcio newydd ar y promenâd.

*Penderfynwyd nodi'r ohebiaeth a disgwyl am ymateb / ymweliad gan Mr Turner.*

**b. Cofnod 112/15(c) - Arolwg o Barcio ar y Promenâd**

Fe nodwyd bod wyth pecyn cyflawn wedi cael eu derbyn a gofynnwyd am gefnogaeth yr Aelodau trwy gymryd mwy o becynnau i gynnal arolwg o ddefnyddwyr y traeth / promenâd ym mis Medi. Fe allai hyn rhoi atebion gwahanol i'r rhai a gafwyd yn ystod gwyliau'r ysgolion.

Fe nodwyd bod cymaint â 35% o'r rhai a holwyd gan un aelod yn tywys cŵn a rhaid ystyried dadleoliad rhain i ardaloedd eraill hefyd. Fe nodwyd ymhellach bod y traeth a'r Promenâd ym Mae Colwyn yn fwy tebyg, o ran defnydd, i Ben Morfa yn Llandudno (lle mae parcio ar hyn o bryd yn ddi-dâl), na Thraeth y Gogledd.

*Penderfynwyd bod yr aelodau i helpu ymhellach gydag arolygon eraill yn ystod mis Medi a bod canlyniadau'r arolwg yn cael ei gasglu a'i grynhoi gan y staff ym mis Hydref.*

**c Cofnod 133/15(c) – Pryderon am Orfodaeth:**

Cyflwynodd y Clerc ymateb ERF ynglŷn â'r pryderon am barcio ar balmentydd ac yn cadarnhau'r cyfrifoldebau / pwerau ar orfodi'r rheoliadau. Bydd hyn yn dibynnu ar fodolaeth unrhyw linellau melyn gwahardd parcio. Fe nodwyd nad oedd Gwasanaethau Rheoleiddio wedi ymateb hyd yn hyn ynglŷn â'r pryderon am y diffyg pwerau gorfodaeth gan staff yr Harbwr Feistr a gorfodaeth gan GBS Conwy pan nad yw dirwyon FPN yn cael eu talu.

*Penderfynwyd nodi'r ymateb a cheisio ymateb gan Wasanaethau Rheoleiddio*

**161/15 Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy:**

**a. *Penderfynwyd derbyn y rhybudd o gais am reoliad traffig dros dro yn Rhodfa Kensington, Hen Golwyn (19/11 hyd at 3/12).***

**b. Cynnal a Chadw Llochesi Bysiau:**

Rhoddodd y Clerc diweddariad byr ar lafar, yn dilyn galwad ffôn gan Gethin George wythnos diwethaf. Fe nodwyd dylai manylion am gynigion ynglŷn â glanhau rheolaidd y llochesi ac amcan brisiau am loches newydd ger gatiu Parc Eirias fod ar gael o fewn yr wythnosau nesaf. Fe nodwyd hefyd bod adroddiad wedi cael ei gyflwyno i Gartrefi Cymru yn cadarnhau bod y gwaith i osod lloches newydd yn Ffordd yr Eglwys, ac a dalwyd amdano gyda grant, wedi cael ei gwblhau.

**c. Rhaglen Byw yn y Bae:**

Rhoddodd y Clerc adroddiad ar lafar am y diweddariadau a dderbyniwyd yng nghyfarfodydd y Swyddogion a gynhaliwyd ar 17<sup>eg</sup> Awst 2015 a'r 14<sup>eg</sup> Medi 2015.

*Penderfynwyd derbyn yr adroddiad a'i nodi.*

**162/15 Llywodraeth Cymru:**

Cyflwynodd y Clerc y dogfennau ymgynghori canlynol i gael eu hystyried:

**a. Cyfarwyddiadau drafft ar Ddemocratiaeth Leol a Chomisiwn Ffiniau Cymru.**

Mynegwyd pryderon am y gymhareb o gynghorydd i etholwr o ddim llai na 1:4,000 (ar gyfer y Cyngor Sir) a'r effaith gall hyn cael mewn rhai ardaloedd gwledig a mannau lle siaredir Cymraeg. Fodd bynnag, mynegwyd pryder hefyd am y posibilrwydd o gael Cynghorau mawr iawn gyda mwy na 75 o aelodau a'r bwriad i ddileu'r cyfyngiad presennol i ganiatáu hyn. Roedd yr aelodau o'r farn byddai Cynghorau efo dros 75 o aelodau yn rhy fawr ac afrosgo.

***Penderfynwyd argymhell bod y Clerc i ymateb trwy amlygu'r pryderon hyn.***

**b. Gwella Cyfleoedd i Gael Mynediad i'r Awyr Agored ar gyfer Adloniant Cyfrifol**

Mynegwyd pryder am y bwriad i amnewid yr hawliau sydd ynghlwm â llwybrau presennol "**lle bo'n briodol**" i roi mwy o lwybrau i weithgareddau sydd angen 'hawliau uwch', e.e. beicwyr a marchogion. Roedd yr aelodau o'r farn mai llwybrau efo arwynebedd addas na fyddai'n difrodi (e.e. metlin ffordd) byddai'n fwyaf addas at ddefnydd 'hawliau uwch'.

Yn yr un modd, mynegwyd pryder am y ddeddfwriaeth arfaethedig i ymestyn yr hawl cyffredinol i fynediad i ddŵr mewndirol (e.e. canŵwyr), gyda chais i gyfyngu hyn i rannau o ddŵr gyda'r dyfnder lleiaf o ddŵr a fyddai'n addas.

***Penderfynwyd bod y Clerc i anfon ymateb priodol ar yr ymgynghoriad gan gynnwys y ddau bwynt uchod.***

**163/15 Comisiynydd yr Henoed yng Nghymru:**

Cyflwynodd y Clerc, er gwybodaeth, copi o'r Datganiad Arolwg Gofal yn ymwneud ag ymatebion gan Fudiadau Statudol. Fe nodwyd mai anfodddhaol oedd yr atebion a dderbyniwyd gan y Comisiynydd gan CSSIW a Llywodraeth Cymru ac roedd trafodaethau yn mynd ymlaen gyda'r mudiadau hyn. Fe gynhelir adolygiad arall ymhen 18 mis.

***Penderfynwyd derbyn y datganiad gan y Comisiynydd a'i nodi.***

**164/15 Cyngor Iechyd Cymunedol Gogledd Cymru:**

Cyflwynodd y Clerc i'w ystyried, papur ymgynghori a ddosbarthwyd gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC) ynglŷn â'r 'Newidiadau Dros Dro i Wasanaethau Merched a Mamolaeth yng Ngogledd Cymru'. Dosbarthwyd hefyd, llythyr gan y Cyngor Iechyd Cymunedol (CIC) ynglŷn â'i swyddogaeth o gynrychioli dinasyddion ledled Gogledd Cymru ac yn gofyn am sylwadau er mwyn gallu paratoi ymateb. Dosbarthwyd hefyd manylion am ddigwyddiadau lle'r oedd ymgynghoriad cyhoeddus i ddigwydd ar draws Gogledd Cymru, un ohonynt yn yr Interchange yn Hen Golwyn ar ddydd Llun 21<sup>ain</sup> Medi o 1pm i 2.30pm ac o 5.30pm i 7pm (dim angen cadw lle).

Mynegwyd pryder y dylai'r Bwrdd canolbwyntio ei adnoddau ar ymdrin ag achosion y problemau staffio presennol, h.y. colli'r cytundeb hyfforddi yn

Ysbyty Glan Clwyd a'r materion ehangach yn ymwneud â recriwtio a'r cyfleoedd i feddygon datblygu eu gyrfaoedd, yn hytrach nag ymateb i'r symptomau trwy dorri gwasanaethau dros dro o fewn unrhyw o'r prif ysbytai a fydd, pa bynnag safle a ddewisir, yn tanseilio hyder ymhellach a chreu anghyfleustra i lawer o ddefnyddwyr y gwasanaethau.

*Penderfynwyd ymateb i ymgynghoriad BIPBC (copi i CIC) trwy ddweud bod y Cyngor yn cefnogi Dewis Un - bod y gwasanaethau i aros fel y maent a bod y Bwrdd i barhau i reoli risg a materion yn ymwneud â staff meddygol a gweithio mewn tîm, gan weithio gyda Deoniaeth Cymru i drafod sut y gellir adennill hyder er mwyn ailgyflwyno swyddi hyfforddi yn Ysbyty Glan Clwyd, efallai trwy gydweithio rhwng Ysbytai Gwynedd a Glan Clwyd fel rhwydwaith er mwyn gwella gwaith tîm a chynyddu cynhwysedd.*

**165/15 Llyfrgell Genedlaethol Cymru:**

Cyflwynodd y Clerc cais a dderbyniwyd gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru yn gofyn am ganiatâd i Wefan Archif y DU gwneud copi o wefan y Cyngor Tref.

*Penderfynwyd rhoi'r caniatâd angenrheidiol i gymryd copi o'r archif.*

**166/15 Promenâd Llandrillo yn Rhos:**

Cyflwynodd y Clerc cynnig ysgrifenedig gan y Cynghorydd D. Griffiths. Esboniwyd y cynnig i'r Aelodau gan y Cynghorydd L. Griffiths, gan gadarnhau bod hyn yn cael ei wneud ar sail iechyd a diogelwch oherwydd y peryglon sy'n bodoli i feicwyr a cherddwyr ar hyn o bryd ar hyd y rhan byr yma o'r ffordd. Fe nodwyd y nifer o ddamweiniau ag achosion lle fu prin osgoi damweiniau ar hyd y rhan yma o'r ffordd yn y blynyddoedd diweddar. Bu Aelodau'r Cyngor hwn yn dystion i rai ohonynt. Fe gynigiwyd felly, nifer o fan newidiadau ac ychwanegiadau i'r cynnig.

*Penderfynwyd ysgrifennu at Brif Weithredwr CBS Conwy (copi i Sustrans) i ddatgan: "Mae'r Cyngor hwn yn gofyn i waith brys cael ei wneud yn Llandrillo yn Rhos i ymuno'r llwybr beiciau o Rhos Point i'r Cayley Arms, er mwyn atal y dagfa ddifrifol a'r materion yn ymwneud ac iechyd a diogelwch sy'n bodoli yna ar hyn o bryd. Dylai hyn cynnwys archwilio'r posibilrwydd o ledi'r ffordd i alluogi traffig dau gyfeiriad symud yn ddiogel a rhoi man cerdded / llwybr beicio newydd ar ochr y traeth o'r rheiliau presennol."*

**167/15 Swyddfa Bost Bae Colwyn:**

Cyflwynodd y Clerc gwybodaeth am y bwriad i foderneiddio Swyddfa Bost Bae Colwyn.

*Penderfynwyd derbyn a nodi'r bwriad.*

**168/15 Gohebiaeth Arall:**

Fe nodwyd bod yr eitemau canlynol o ohebiaeth ar gael gan y Clerc ar gais:

- a Cofnodion Cyfarfod Cymdeithas Trigolion Hen Golwyn (y Dwyrain) a gynhaliwyd ar 12.8.15
- b. Newyddion CGGC – Rhifyn 105 – Haf 2015
- c. Chwarae Cymru - Rhifyn 45 - Hydref 2015

**169/15 Cynllunio:**

- a. Cyflwynodd y Clerc y ceisiadau cynllunio a dderbyniwyd gan GBS Conwy i'w ystyried.

*Penderfynwyd cyflwyno sylwadau ar y ceisiadau hyn fel y gwelir yn Atodlen 'A' sydd gyda hwn.*

- b. Cyflwynodd y Clerc copi o Benderfyniadau Cynllunio a roddwyd gan GBS Conwy er gwybodaeth.

*Penderfynwyd derbyn a nodi'r Benderfyniadau Cynllunio.*

- c. Cyflwynwyd dau adroddiad ysgrifenedig byr gan aelodau a fu'n bresennol yn y cyfarfodydd safle mewn perthynas cheisiadau cynllunio O/41800 ag O/41855.

*Penderfynwyd derbyn a nodi'r adroddiadau hyn a diolch i'r aelodau am fod yn bresennol.*

- ch. Cyflwynodd y Clerc yr hysbysebion canlynol a dderbyniwyd gan GBS Conwy mewn perthynas â cheisiadau diweddar:

- i. O/41843/44 - tynnwyd y cais yn ôl
- ii. O/41533 - tynnwyd y cais yn ôl
- iii. O/41852 - rhybudd o apêl
- iv. O/41901 - tynnwyd y cais yn ôl

- d fe nodwyd bod Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi ymgynghoriad ar y diweddariadau arfaethedig i bennod 10 Polisi Cynllunio Cymru a TAN 4 (cyfarwyddiadau cynllunio). Fe nodwyd bydd hyn yn cael ei ystyried yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor

- dd Fe nodwyd bod y Cyfarwyddiadau Cynllunio Ychwanegol (CCY) canlynol wedi cael eu mabwysiadu'n ddiweddar gan GBS Conwy: LDP09 Cynllunio, LDP14 Ardaloedd Cadwraeth, LDP16 Cynllun Rheoli CA Conwy, LDP27 Protocol Risg Llifogydd yr Arfordir.

**170/15 Ceisiadau am Drwyddedau:**

Cyflwynodd y Clerc manylion am un TEN a gofnodwyd yn ddiweddar gan GBS Conwy ar gyfer ardal Bae Colwyn, er gwybodaeth.

Daeth y Cyfarfod i ben am 8.05 pm

..... Cadeirydd